

---

Yr amgylchedd: teithiau drwy fyd sy'n newid U116

---

*Patrwm cyflwyno*            *O fis Chwefror i fis Medi*  
                                      *O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r cwrs*

Mae ein byd yn newid yn gyflym – mae pethau fel newid hinsawdd, galw cynyddol am adnoddau cyfyngedig a phlanhigion ac anifeiliaid yn prinhaus, yn pwysu'n drwm arnom. Mae *Yr amgylchedd: teithiau drwy fyd sy'n newid* yn cyflwyno myfyrwyr i astudiaethau amgylcheddol a'r materion sy'n codi o newid yn yr amgylchedd. Mae'n dangos sut y mae pobl yn chwilio am atebion cadarnhaol i'r heriau amgylcheddol lle maent yn byw, yn yr Arctig, Affrica, yr Amazon a Tsieina. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r cysyniadau sydd eu hangen i ddeall ein byd sy'n newid o hyd. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol ar fyfyrwyr i astudio'r cwrs hwn, dim ond diddordeb yn nyfodol ein planed.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu brofiad cyfatebol mewn maes pwnc perthnasol a allai gynnwys astudiaethau amgylcheddol, gwyddoniaeth, gwyddor gymdeithasol neu dechnoleg
- profiad addysgu neu brofiad diweddar o addysgu neu hyfforddi oedolion neu addysgu neu hyfforddi o bell
- brwdfrydedd a pharodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd
- ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol modern
- ymrwymiad i addysg ryngddisgyblaethol ar Lefel 1.

*Gwybodaeth ychwanegol*

- Bydd disgwyl i chi addysgu'r cwrs hwn drwy ddefnyddio dulliau amlygrwng.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	7
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6.5